Mathemateg Arian - Canrannau

1. Treth ar Werth (TAW)

Mae TAW yn dreth a gaiff ei thalu i'r Llywodraeth pan fyddwch chi'n prynu nwyddau a gwasanaethau. Ar hyn o bryd mae'n 20%, ac mae'n cael ei hychwanegu at bris y cynnyrch.

Cyfrifwch gyfanswm y pris os caiff TAW ei hychwanegu at y cynhyrchion canlynol:

		TAW	Cyfanswm y Pris
Bil tŷ bwyta	£47.68		
Tocynnau cyngerdd	£89.27		
CD	£16.99		
Consol gemau	£129.49		
Teledu Plasma	£1,144.99		

2. Newid gwerthoedd

Pan fyddwn ni'n prynu pethau, mae eu gwerth yn aml yn dibrisio (mae eu gwerth yn mynd i lawr). Fodd bynnag, gall gwerth rhai pethau godi, felly mae'n bwysig cadw hyn mewn cof wrth feddwl am brynu eitemau mawr.

Gweithiwch allan y gwerthoedd canlynol:

a. Mae Naomi yn prynu fflat am £65,000. Dros wyth mlynedd, mae prisiau eiddo yn codi 20%. Beth yw gwerth y fflat ar ddiwedd yr wyth mlynedd?

b. Mae Steven yn prynu tŷ am £180,000. Mae prisiau eiddo yn gostwng 27% dros y tair blynedd nesaf. Beth yw gwerth y tŷ erbyn hynny?

c. Mae Kaya yn prynu car ail law am £7,550. Mae ei werth yn gostwng 18% dros y pedair blynedd nesaf. Beth yw gwerth y car erbyn hynny?

ch. Mae James yn prynu modrwy aur am £1,043 ond yn ei cholli hi. Mae am brynu'r un fodrwy flwyddyn yn ddiweddarach ond mae'r pris wedi codi 12%. Faint fydd y fodrwy newydd yn ei chostio?

d. Mae Risha yn prynu tŷ gwerth £274,799. Mewn chwe blynedd, mae ei werth wedi codi 17.5%. Beth yw gwerth y tŷ erbyn hyn? Faint o elw fydd Risha yn ei gael os bydd hi'n gwerthu'r tŷ?

Parhad

Mathemateg Arian - Canrannau parhad

3. Gostyngiadau a chynigion

Pan fyddwch chi'n siopa, gallwch chi arbed arian drwy edrych am y gostyngiadau gorau.

Mae'r siopau canlynol yn cynnig yr un eitemau am brisiau gwahanol. Ym mhob un o'r enghreifftiau, gweithiwch allan y prisoedd gostyngol a dewch o hyd i'r cynnig rhataf (neu'r Fargen Orau!).

Siop A - Pris gwreiddiol: £6,500 Cynnig: gostyngiad o 25%.....

Siop B - Pris gwreiddiol: £5,050 Cynnig: gostyngiad o 15% .....

Siop C - Pris gwreiddiol: £8,500 Cynnig: gostyngiad o 35%.....

Siop A - Pris gwreiddiol: £245 Cynnig: gostyngiad o 53%.....

Siop B - Pris gwreiddiol: £150 Cynnig: gostyngiad o 26%.....

Siop C - Pris gwreiddiol: £120 Cynnig: gostyngiad o 9% .....

Siop A - Pris gwreiddiol: £13.55 Cynnig: gostyngiad o 15% .....

Siop B - Pris gwreiddiol: £15.29 Cynnig: gostyngiad o 20%.....

Siop C - Pris gwreiddiol: £16.49 Cynnig: gostyngiad o 1/3.....

Siop A - Pris gwreiddiol: £515.59 Cynnig: gostyngiad o 22% .....

Siop B - Pris gwreiddiol: £643.34 Cynnig: gostyngiad o 33% .....

Siop C - Pris gwreiddiol: £458.99 Cynnig: gostyngiad o 11% .....

Noder: Nid yw siopau fel arfer yn cynnig gostyngiadau sydd mor gymhleth ã'r rhain i'w gweithio allan ond gall fod yn ddefnyddiol mynd â chyfrifiannell gyda chi fel eich bod chi'n gwybod faint yn union y bydd angen i chi dalu.